Unpublished

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Fframwaith integreiddio ar gyfer nyrsys a addysgir yn rhyngwladol (WHC/2024/021)

Canllawiau hanfodol i helpu nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol i integreiddio i GIG Cymru.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 25 Tachwedd 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 25 Tachwedd 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/fframwaith-integreiddio-ar-gyfer-nyrsys-addysgir-yn-rhyngwladol-whc2024021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Manylion

## Cylchlythyr iechyd Cymru: darparu gwybodaeth safonol ar gyfer nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/fframwaith-integreiddio-ar-gyfer-nyrsys-addysgir-yn-rhyngwladol-whc2024021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Manylion

## Statws:

Gweithredu.

## Categori:

Y gweithlu.

## Teitl:

Croeso i Gymru / welcome to Wales: fframwaith canllawiau polisi.

## Dyddiad dod i ben / dyddiad yr adolygiad:

Amherthnasol.

## I'w weithredu gan:

- Brif weithredwyr, byrddau / ymddiriedolaethau / awdurdodau iechyd arbennig.
- Prif swyddogion gweithredu, byrddau iechyd / ymddiriedolaethau /

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/fframwaith-integreiddio-ar-gyfer-nyrsys-addysgir-yn-rhyngwladol-whc2024021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

awdurdodau iechyd
arbennig.

- Cyfarwyddwyr cyllid, byrddau iechyd / ymddiriedolaethau / awdurdodau iechyd arbennig
- Cyfarwyddwyr y gweithlu, byrddau iechyd / ymddiriedolaethau / awdurdodau iechyd arbennig
- Cyfarwyddwyr gweithredol nyrsio, byrddau iechyd / ymddiriedolaethau / awdurdodau iechyd
arbennig
- Cyfarwyddwyr meddygol - byrddau iechyd / ymddiriedolaethau / awdurdodau iechyd
arbennig.

## Anfonwr:

Sue Tranka, Prif Swyddog Nyrsio Cymru.

## Enwau cyswllt yn Llywodraeth Cymru:

Gill Knight **gillian.knight@gov.wales**

## Dogfennau amgaeedig:

**Fframwaith polisi**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/fframwaith-integreiddio-ar-gyfer-nyrsys-addysgir-yn-rhyngwladol-whc2024021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cylchlythyr iechyd Cymru: darparu gwybodaeth safonol ar gyfer nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol

Mae'r cylchlythyr iechyd Cymru hwn yn disgrifio'r safon ar gyfer sicrhau cysondeb yn y dull gweithredu a ddefnyddir i ddarparu gwybodaeth hanfodol i gefnogi nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol sy'n dewis byw a gweithio yng Nghymru. Mae'r nyrsys hyn yn rhan annatod o'r gweithlu ehangach, gan gyfrannu at y gwaith o ddarparu gofal iechyd diogel o ansawdd uchel. Felly, mae'n hanfodol bod sefydliadau'r GIG ledled Cymru yn darparu gwybodaeth berthnasol a chyson i sicrhau y gallant drosglwyddo'n esmwyth ac ymgartrefu yn eu hamgylcheddau proffesiynol a chymdeithasol.

Cafodd **ein fframwaith canllawiau polisi, croeso i Gymru / welcome to Wales**, ei ddatblygu ar y cyd i hyrwyddo dull gweithredu unffurf a theg ar gyfer darparu gwybodaeth. Mae'r fframwaith yn amlinellu themâu trosfwaol sy'n diffinio'r wybodaeth ofynnol y mae'n rhaid ei rhoi i nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol. Mae'r themâu hyn yn cynnwys:

- gwybodaeth am gefndir cyffredinol y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth, gweithio yng Nghymru, a'r ardal leol
- cefnogaeth fugeiliol a chymdeithasol
- ymsefydlu sefydliadol
- paratoi OSCE (arholiad clinigol gwrthrychol strwythuredig)
- cyd-destun polisi ehangach

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/fframwaith-integreiddio-ar-gyfer-nyrsys-addysgir-yn-rhyngwladol-whc2024021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae'r wybodaeth a nodir o dan y themâu hyn yn cynrychioli'r safon ofynnol, ac felly dylai fod ar gael yn rhwydd. Fodd bynnag, anogir sefydliadau'r GIG i gynnwys manylion perthnasol ychwanegol. Hefyd, rhaid i bob sefydliad ddarparu gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â pholisïau, strategaethau a chanllawiau Cymru gyfan.

Er mwyn hwyluso'r broses o ddarparu'r wybodaeth hon mewn modd cyson, mae'r ap bugeiliol (recriwtio rhyngwladol GIG Cymru/NHS Wales international recruitment) wedi cael ei ariannu'n ganolog am dair blynedd. Mae'r ap hwn yn galluogi nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol i gael mynediad at wybodaeth hanfodol, sef gwybodaeth y gall y sefydliad perthnasol ei rheoli a'i diweddaru'n hawdd.

Mae'r ap wedi ei gynllunio i gyd-fynd â'r gofynion a amlinellir yn y fframwaith, gan sicrhau bod gwybodaeth gyson a hygyrch ar gael mewn un lleoliad. Mae'n caniatáu i sefydliadau ddiweddaru gwybodaeth yn hawdd, gan sicrhau bod y canllawiau a roddir i nyrsys a addysgwyd yn rhyngwladol yn parhau mor gyfredol â phosibl. Mae'r ap hefyd yn cynnig yr hyblygrwydd i gynnwys gwybodaeth ychwanegol sy'n benodol i fwrdd iechyd neu ymddiriedolaeth, ac mae'n cynnwys system rybuddio ar gyfer sicrhau bod y nyrsys yn cael diweddariadau brys a hefyd ddiweddariadau nad ydynt yn rhai brys.

Mae'r adnodd deinamig hwn o fudd i'r nyrsys hyn ac i sefydliadau'r GIG drwy ei fod yn gwella cyfathrebu. Fodd bynnag, mae'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r GIG sicrhau eu bod yn monitro ac yn diweddaru'r wybodaeth sydd ar gael drwy'r ap, yn unol â chanllawiau'r fframwaith. Felly, disgwylir i sefydliadau sicrhau bod y cynnwys yn gwbl gyfredol, a bod y nyrsys hyn yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol yn eu gwaith a'u bywydau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/fframwaith-integreiddio-ar-gyfer-nyrsys-addysgir-yn-rhyngwladol-whc2024021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cymdeithasol. Hefyd, mae'r ap yn darparu llwyfan i'r nyrsys gyfathrebu'n uniongyrchol â'u cyflogwyr, eu rheolwyr llinell, a'u cymheiriaid, gan feithrin cysylltiadau cryfach a galluogi cymorth mwy effeithiol.

Yn gywir,

Sue Tranka

Y Prif Swyddog Nyrsio

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/fframwaith-integreiddio-ar-gyfer-nyrsys-addysgir-yn-rhyngwladol-whc2024021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.